# Cylchlythyr System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru (WNWRS)

## System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru (WNWRS)

### Arolwg o Gynhwysiant a Pherthyn y Gweithlu Gofal Sylfaenol

Bydd yr arolwg hwn yn rhoi'r cyfle cyntaf i holl staff fferylliaeth, deintyddiaeth, practis cyffredinol ac optometreg yng Nghymru rannu sut beth yw gwaith iddynt. Dewch â'r arolwg hwn at sylw'r staff yn eich practis drwy rannu'r Cod QR. Daw'r arolwg i ben ar 31 Hydref 2024 ac mae'n ddienw a chaiff ei gwblhau drwy Dysgu@Cymru.

### Swyddi Gwag

Mae PCGC yn cefnogi anghenion recriwtio eich Practis Meddyg Teulu ac mae ganddi adnoddau amrywiol i'ch helpu.

WNWRS – nodwch unrhyw swyddi gwag sydd gennych yn y system a gwiriwch fod y swyddi gwag presennol yn cael eu diweddaru yn unol â hynny. Mae hyn yn tynnu sylw Rhanddeiliaid ar draws y GIG ei bod yn bosibl nad yw eich gweithlu yn llawn.

GP Wales – nodwch unrhyw swyddi gwag sydd gennych ar y safle. Mae hwn yn wasanaeth rhad ac am ddim, sy'n bwydo NHS Jobs yn awtomatig, fel eich bod yn cael cymaint o sylw â phosibl ledled Cymru a thu hwnt. Mae hyn yn dileu'r angen i nodi manylion eich swydd wag ar Trac, gan y bydd y wefan yn gwneud hyn yn awtomatig i chi. Mae adnoddau ar gael ar gronfa Wybodaeth GP Wales i'ch helpu drwy'r broses hon.

Tystysgrif Nawdd - os ydych yn bwriadu recriwtio Meddyg Teulu newydd, yna gallai cael Trwydded i noddi Meddyg Teulu newydd gymhwyso fod yn opsiwn i chi. Am ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost i: NWSSP.CertificateofSponsorship@wales.nhs.uk

### Pa rolau sydd angen i mi eu cynnwys ar WNWRS?

Dylid ychwanegu'r holl staff a gyflogir yn eich Practis Meddyg Teulu at y WNWRS at ddiben cynllunio'r gweithlu ac i gyflawni'r gofynion a amlinellir yn y Cynllun ar gyfer GMPI. Mae hefyd yn bwysig i daliadau Gallu Ychwanegol sicrhau nad oes unrhyw oedi o ran dilysu.

Dyma rai rolau y dylid eu cynnwys:

- Staff Banc gan gynnwys Nyrsys
- Partneriaid Dim Oriau (Clinigol ac Anghlinigol)
- Meddygon Teulu Wrth Gefn
- Meddygon Teulu sy'n Dychwelyd
- Cymrodyr Academaidd Meddygon Teulu

Peidiwch â nodi unrhyw Gofnodion Staff newydd ar gyfer unrhyw feddygon teulu dan hyfforddiant na chofrestryddion. Rydym yn gallu cael y data hyn o ffynhonnell wahanol i fwydo'r modiwl adrodd.



### Ansawdd Data

Wyddoch chi fod mathau newydd o gontractau ar gyfer partneriaid clinigol ac anghlinigol? Sicrhewch eich bod yn defnyddio'r rhain wrth ychwanegu Partneriaid newydd at eich practis ar y WNWRS.






Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni:

Ffôn: 02921 500544
E-bost: NWSSP.PrimaryCareWNWRS@Wales.nhs.uk

Partneriaeth Cydwasanaethau
**Gwasanaethau Cyflogaeth**

Shared Services Partnership
**Employment Services**

Gallwch hefyd ymweld â'n gwefan yn: https://pcgc.gig.cymru/